

Archwiliad CDLI Newydd Caerdydd

Strategaeth

Pwynt Gweithredu HS2.3

Y Cyngor i ddarparu manylion y broses asesu sy'n cefnogi'r niferoedd a briodolwyd i safleoedd a ddyrannwyd. Gan gynnwys;

- *cefnogi'r safbwynt bod H2.1, H2.5, H2.6 a H2.7. yn addas i'w datblygu mewn egwyddor a gallant ddarparu'r niferoedd a briodolwyd iddynt heb niwed i safle Ramsar/ AGA Aber Afon Hafren,*
- *sylwadau CNC ar SH1.2 a SH1.4 yn ei ymateb i Sesiwn Gwrandawriad 8*
- *perchnogaeth a chyfyngiadau safle (siâp) y dyraniad llai ym Mhorth Teigr/Pentir Alexander (niferoedd a champau/amseriad y cyflawni)*
- *adolygu Heol Hadfield i ystyried yr arwynebedd llai sydd ar gael ar gyfer tai o ganlyniad i ddefnydd masnachol ar ymyl y ffordd (1ha) ac yng ngoleuni sylwadau perchennog y safle y gallai cadw defnyddiau masnachol/cyflogaeth rwystro cyflawni,*
- *adolygu egwyddor a nifer yr unedau a briodolwyd i Dir yn ardaloedd 9-12 Llaneirwg i ystyried eu bod yn rhannol mewn SoDdGA, bod 2/3 ohonynt mewn SoBCN a'r rhagdybiaethau yn Rhaglen Dai y Cyngor,*
- *Adolygu'r holl safleoedd a ddyrannwyd sydd wedi'u cynnwys yn Rhaglen Dai y Cyngor a diweddarau taflwybrau 2024 a 2025 lle bo angen,*
- *diweddarau Papur Cefndir Tai, Ffigur 11.*
- *darparu uwchgynlluniau ar gyfer safleoedd lle maent ar gael, gan esbonio lle maent yn rhagflaenu'r gofynion diweddaraf, i ba raddau y maent yn cefnogi'r niferoedd tai.*
- *Y Cyngor i ddarparu gwybodaeth am waith adfer ar Heol y Fferi a'r gwaith paratoi safle a wnaed hyd yma.*

Ymateb y Cyngor

- ***cefnogi'r safbwynt bod H2.1, H2.5, H2.6 a H2.7. yn addas i'w datblygu mewn egwyddor a gallant ddarparu'r niferoedd a briodolwyd iddynt heb niwed i safle Ramsar / AGA Aber Afon Hafren,***

Mae strategaeth liniaru RhMMS/MGNAA ddrafft wedi'i pharatoi a'i chyflwyno sy'n ystyried y mater hwn o dan Bwynt Gweithredu H2.5.

- **Sylwadau SH1.4 yn eiCNC ar SH1.2 a ymateb i Sesiwn Gwrandawriad 8**

Mae'r dyraniadau hyn yn ffurfio ardaloedd gweddilliol o Safle Tai Strategol F a D a ddyrannwyd yn y CDLl mabwysiedig. Mae uwchgynlluniau sgematig wedi'u paratoi ar gyfer y safleoedd strategol hyn sy'n nodi'r ddarpariaeth ar gyfer seilwaith gwyrdd a chysylltedd. Mae'r uwchgynlluniau hyn wedi'u cynnwys gyda'r ymateb hwn.

- ***perchnogaeth a chyfyngiadau safle (siâp) y dyraniad llai ym Mhorth Teigr/Pentir Alexander (niferoedd a chamau/amseriad y cyflawni)***

Mae rhagor o wybodaeth yn ymwneud â Phorth Teigr wedi'i chyflwyno gan gynigydd y safle wedi'i chynnwys gyda'r ymateb hwn sy'n darparu rhagor o wybodaeth am gyfyngiadau, niferoedd, camau ac amseriad cyflawni.

- ***adolygu Heol Hadfield i ystyried yr arwynebedd llai sydd ar gael ar gyfer tai o ganlyniad i ddefnydd masnachol ar ymyl y ffordd (1ha) ac yng ngoleuni sylwadau perchennog y safle y gallai cadw defnyddiau masnachol/cyflogaeth rwystro cyflawni,***

Mae'r safle bellach wedi'i brynu gan Gymdeithas Tai Wales and West, ac ar hyn o bryd maent yn paratoi uwchgynllun ar gyfer y safle i lywio'r broses o gyflwyno cyn cyn gwneud cais i'w ystyried gan y Cyngor.

- ***adolygu egwyddor a nifer yr unedau a briodolwyd i Dir yn ardaloedd 9-12 Llaneirwg i ystyried eu bod yn rhannol mewn SoDdGA a bod 2/3 mewn SoBCN a'r rhagdybiaethau yn Rhaglen Dai y Cyngor,***

Mae'r Cyngor yn cynnig dileu'r dyraniad safle hwn (H1.1) o'r Cynllun.

- ***Adolygu'r holl safleoedd a ddyrannwyd sydd wedi'u cynnwys yn Rhaglen Dai y Cyngor a lle bo angen diweddarau taflwybrau 2024 a 2025,***

Mae'r Cyngor wedi paratoi rhestr o safleoedd yn rhaglen dai'r Cyngor mewn ymateb i Bwynt Gweithredu HS1.3 a lle bo gan y safleoedd hyn ganiatâd cynllunio, maent wedi'u cynnwys yn y taflwybr tai diwygiedig a gyflwynwyd o dan HS2.1 a HS2.7.

- ***diweddarau Papur Cefndir Tai, Ffigur 11.***

Mae'r Cyngor wedi paratoi Ffigur 11 wedi ei ddiweddarau i'r Papur Cefndir Tai sydd wedi'i gynnwys gyda'r ymateb hwn,

- ***darparu uwchgynlluniau ar gyfer safleoedd lle maent ar gael, gan esbonio, lle maent yn rhagflaenu'r gofynion diweddaraf, ac i ba raddau y maent yn cefnogi'r niferoedd tai.***

Mae rhagor o wybodaeth ac uwchgynlluniau wedi'u cynnwys gyda'r ymateb hwn i gefnogi'r niferoedd tai ar gyfer hen safle'r Gwaith Nwy ar Heol y Ferri, Porth Teigr a Phorth Caerdydd.

- ***Y Cyngor i ddarparu gwybodaeth am waith adfer yn Heol y Fferi a'r gwaith paratoi safle a wnaed hyd yma.***

Darperir rhagor o wybodaeth gyda'r ymateb hwn ar gyfer safle Heol y Fferi.